
Safonau hyfedredd ar gyfer nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol

Cyhoeddiad gwreiddiol: 7 Gorffennaf 2022



Contents

Rhagair	3	Maes C: Hyrwyddo hawliau dynol a mynd i'r afael ag anhydraddoldebau: asesu, gwiliadwriaeth ac ymyrraeth	18
Beth rydym yn ei wneud	3	Maes D: Iechyd y boblogaeth: galluogi, cefnogi a gwella canlyniadau iechyd pobl ar draws hynt bywyd	23
Addysg a hyfforddiant y tu hwnt i gofrestrriad cychwynnol	3	Maes E: Hyrwyddo gwasanaethau iechyd y cyhoedd a hyrwyddo lleoedd iach, amgylcheddau a diwylliannau	31
Rôl y nyrs iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol yn yr 21ain ganrif	4	Maes F: Arwain a chydweithio: o fuddsoddi i weithredu a lledaenu	37
Sut i ddarllen y safonau hyn	9	Geirfa	43
Natur safonau rheoleiddio	11		
Fframwaith deddfwriaethol	13		
Maes A: Ymarfer nyrsio iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol ymreolaethol	14		
Maes B: Trawsnewid ymarfer nyrsio iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol: tystiolaeth, ymchwil, gwerthuso a dehongli	16		

Cafodd y safonau hyn eu cymeradwyo gan y Cyngor yn eu cyfarfod ar 26 Mai 2022. Cawsant eu hailgynllunio ym mis Mawrth 2024.

Rhagair

Beth rydym yn ei wneud

Mae'n ofynnol i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (yr 'NMC') osod safonau hyfedredd, addysg a hyfforddiant ar gyfer gweithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol sy'n ceisio ymuno â'n cofrestrau am y tro cyntaf. Fel rhan o hyn rydym yn adolygu ein safonau'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau i ddiogelu'r cyhoedd, eu bod yn addas i'r diben, a'u bod yn angenrheidiol ar gyfer gofal diogel, effeithiol a charedig. Pan fyddwn yn adolygu unrhyw un o'n safonau, gan gynnwys safonau hyfedredd ar gyfer nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol (SCPHN) rydym yn ystyried tystiolaeth newydd, y newidiadau sy'n digwydd mewn cymdeithas a newidiadau mewn iechyd a gofal.

Addysg a hyfforddiant y tu hwnt i gofrestriad cychwynnol

Yn y gwasanaethau iechyd a gofal heddiw, rydym yn cydnabod bod rolau nyrsys, bydwreagedd a chymdeithion nyrsio (yn Lloegr) yn newid ac yn ehangu, a bod angen lefelau uwch o ymreolaeth, gwybodaeth a sgiliau er mwyn cyflawni eu potensial yn llawn a chyfrannu at ddarparu gwasanaethau er budd y [pobl](#) y maent yn eu gwasanaethu. Mae pawb ar ein cofrestr yn ymgymryd ag addysg a hyfforddiant ychwanegol ar ôl eu cofrestriad proffesiynol cychwynnol i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau pellach, ond nid yw'r holl addysg barhaus hon yn cael ei reoleiddio neu angen ei reoleiddio.

Rydym yn mabwysiadu ymagwedd gymesur at reoleiddio cymwysterau ôl-gofrestru. Rydym yn cadw rheoliadau ar gyfer y meysydd hynny lle mae angen sicrhau cysondeb safonau hyfedredd, a safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant, i gyflawni lefel uwch o ansawdd a diogelwch er mwyn lliniaru risg a i dawelu meddwl y cyhoedd. Un o'r ffyrdd sydd gennym o gydnabod cymwysterau ôl-gofrestru yw drwy osod safonau hyfedredd ar gyfer nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol (SCPHN).

Rôl y nyrs iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol yn yr 21ain ganrif

Mae gweithwyr proffesiynol SCPHN yn rheng flaen iechyd y cyhoedd. Hwyl yn ymarferwyr ymreolaethol, [diwylliannol gymwys](#) sydd yn ymrwmo i wella iechyd a lles pobl. Maent yn deall [penderfynyddion iechyd](#) ac yn ceisio mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ar draws y cymunedau a'r poblogaethau amrywiol maent yn gwasanaethu.

Mae pob SCPHN yn gweithio mewn partneriaeth â phobl i atal afiechyd, diogelu iechyd a hybu lles. Gan ddefnyddio [sylfaen tystiolaeth gadarn](#) byddant yn arwain, dylanwadu a chydweithio ag asiantaethau, sefydliadau a gweithwyr proffesiynol eraill i wella ac ymgorffori newidiadau cynaliadwy i iechyd a lles cyffredinol pobl gartref, o fewn cymunedau, mewn ysgolion ac yn y gweithle. Mae SCPHNs yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddiogelu'r bobl hynny sydd fwyaf [agored i niwed](#) mewn cymdeithas, a maent yn uchelgeisiol dros iechyd cyhoeddus y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Maent yn weithredol yn mynd ar drywydd [nodau datblygu cynaliadwy](#) sy'n hybu hawl pawb i fywyd iach.

Mae **ymwelwyr iechyd SCPHN (HV)** mewn sefyllfa unigryw i gyrraedd pob plentyn yn eu cartref eu hunain, a bod yn gysylltiedig â'u teulu a cymuned gyfan. Maent yn meithrin perthnasoedd ymddiriedus gyda phlant, gofalwyr a theuluoedd, i ddylanwadu'n gadarnhaol ar eu canlyniadau iechyd yn y dyfodol. Maent yn nodi eu hanghenion iechyd a'u cryfderau ac yn darparu'n amserol, ymyriadau effeithiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth mewn partneriaeth â nhw. Maent yn darparu gwasanaeth cyffredinol sy'n sicrhau cymorth i blant a theuluoedd sy'n bersonol, effeithiol, amserol a chymesur. Mae anghenion a lles y plentyn bob amser yn ganolog i'w gwaith.

Mae ymwelwyr iechyd yn defnyddio eu hannibyniaeth broffesiynol i addasu a theilwra eu hymateb i anghenion iechyd a lles unigolion, teuluoedd a chymunedau o fewn cyd-destunau amrywiol a chyfnewidiol. Maent yn sensitif i wahanol safbwyntiau diwylliannol ac yn defnyddio gwybodaeth fanwl am gymunedau lleol i ddatblygu perthnasoedd cryf gyda'r gymuned ac i gysylltu teuluoedd ag adnoddau cymunedol sy'n diwallu eu hanghenion orau.

Mae ymwelwyr iechyd yn eiriolwyr dros degwch, cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol a byddant yn herio arferion ac ymddygiad gwahaniaethol. Maent yn deall effaith penderfynyddion ehangach iechyd ac wedi ymrwymo i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd drwy atal ac ymyriadau cynnar, a hybu a gwella iechyd.

Maent yn arwain gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac wedi'u llywio gan dystiolaeth. Gyda chreadigrwydd a dyfeisgarwch, ac yn gwerthuso effaith eu hymyriadau i wella ansawdd gofal a chanlyniadau i blant a theuluoedd yn barhaus. Maent yn gwneud y mwyaf o'r effaith positif gwasanaethau ymwelwyr iechyd drwy weithio mewn system gydweithredol, gan gynllunio a chydlynu gofal a chynnal parhad ar draws gwahanol wasanaethau ac asiantaethau. Maent yn cofleidio ac yn hyrwyddo technolegau newydd a maent yn fedrus wrth arwain newidiadau wrth ddarparu gwasanaeth.

Mae **nyrsys ysgol SCPHN (SN)** yn ymarferwyr ymreolaethol sy'n cynnal hawliau plant o oedran ysgol a phobl ifanc bob amser. Gan weithio ar y cyd ar draws iechyd, addysg ac asiantaethau eraill, ac fel rhan annatod o wasanaeth iechyd y cyhoedd ehangach, mae nyrsys ysgol yn eirioli dros yr iechyd gorau posibl i'r holl blant o oedran ysgol a phobl ifanc, gan geisio sicrhau bod gwasanaethau'n deg, cynhwysol, cyfartal, gwrth-wahaniaethol gan ddylanwadu'n gadarnhaol ar iechyd a lles.

Gan ddefnyddio amrywiaeth o sgiliau cyfathrebu uwch, mae nyrsys ysgol yn meithrin perthnasoedd ymddiriedus gyda phlant o oedran ysgol a phobl ifanc, a rhieni, gofalwyr a theuluoedd. Yn bwysig, mae nyrsys ysgol yn gwrando'n astud ar blant o oedran ysgol a phobl ifanc, gan ystyried yr hyn sy'n bwysig iddynt a bob amser yn rhoi anghenion, lles a diogelwch plant o oedran ysgol a phobl ifanc pobl yn gyntaf.

Mae nyrsys ysgol yn darparu cefnogaeth ddiwylliannol briodol ac ymyriadau cynnar sy'n ceisio hyrwyddo dewisiadau cadarnhaol a lleihau ymddygiadau sy'n golygu cymryd risg. Maent yn canolbwyntio ar anghenion cyfannol ac yn eu cefnogi ymhlith plant o oedran ysgol a phobl ifanc. Maent yn deall y penderfynyddion iechyd ehangach ac maent wedi ymrwymo i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ar draws hynt bywyd, trwy iechyd addysg, hybu iechyd ac oed ac ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n briodol ar gyfer oedran ac aeddfedrwydd.

Maent yn adnabod eu cymuned a'i hasedau ac yn arwain gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n cael eu hysgogi gan dystiolaeth i sicrhau canlyniadau iechyd cadarnhaol i blant o oedran ysgol a phobl ifanc. Maent yn cydweithio ac yn gweithio'n effeithiol gyda thimau a gweithwyr proffesiynol eraill ar draws ystod o sectorau ac asiantaethau.

Mae **nyrsys iechyd galwedigaethol SCPHN (OHN)** yn arwain ac yn gweithio mewn ystod o amgylcheddau gwaith a sectorau. Maent yn arwain gwasanaethau i wella iechyd a lles pobl yn eu gweithleoedd a thu hwnt. Gan weithio'n annibynnol, maent yn hyrwyddo ac yn amddiffyn iechyd y gweithlu, gan sicrhau cydbwysedd iach rhwng gwaith a lles. Fel grŵp penodol o weithwyr iechyd y cyhoedd proffesiynol, maent yn helpu i atal afiechyd a chlefydau sy'n gysylltiedig â gwaith trwy roi cyngor ar greu gweithleoedd sy'n ddiogel, yn effeithlon ac yn gynhwysol.

Mae nyrsys iechyd galwedigaethol yn cydweithio â gweithwyr proffesiynol eraill, arbenigwyr yn y sector, cyflogwyr a chyflogeion i arwain mentrau iechyd yn y gweithle sy'n ymateb i anghenion unigolion a sefydliadau. Gallant ddefnyddio a dadansoddi data'n effeithiol gan gyfuno eu sgiliau nyrsio arbenigol â dealltwriaeth ehangach a phrofiad o'r sector arbennig y maent yn gweithio ynddo i wreiddio mentrau iechyd yn y cynllunio sefydliadol ehangach er budd pobl a chymunedau ac wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldebau.

Gan gymhwyso eu barn broffesiynol a chraffter busnes, mae nyrsys iechyd galwedigaethol yn creu strategaethau arloesol ar gyfer gweithleoedd cynhwysol sy'n galluogi pobl o alluoedd amrywiol i gael eu cyflogi'n gynhyrchiol.

Maent yn hyrwyddo'r angen am strategaethau iechyd a lles yn y gweithle sy'n cydnabod effaith iechyd ar waith a gwerth gwaith i iechyd. Gan gydnabod gwerth poblogaeth waith amrywiol, mae nyrsys iechyd galwedigaethol yn ymgorffori dulliau gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n mynd i'r afael ag anghenion gweithlu amrywiol.

Maent yn asiantau dros newid sy'n dylanwadu ar lefel strategol a lefel y sector, gan feddwl yn fyd-eang ond yn gweithredu'n lleol, i greu gweithlu iach ar gyfer y presennol a'r dyfodol.

Mae **nyrsys iechyd y cyhoedd SCPHN (PHN)** yn arbenigwyr ym maes iechyd y cyhoedd nad oes ganddynt faes ymarfer SCPHN a bennwyd ymlaen llaw. Gallant gweithio mewn rolau ar draws ystod eang o sectorau a lleoliadau, gan gymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau iechyd y cyhoedd arbenigol i'r bobl, cymunedau a phoblogaethau y maent yn eu gwasanaethu.

Maent yn dilyn ymagwedd hynt bywyd a phoblogaeth gyfan i wneud cyfraniad gwerthfawr i iechyd a lles y gymdeithas ehangach ac wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. Maent yn eirioli dros bobl sy'n maethu perthnasoedd therapiwtig sy'n meithrin hyder ac ymddiriedaeth. Maent yn gallu darparu gwybodaeth ynghylch iechyd y cyhoedd, cymorth ac yn darparu ymyriadau amserol i bobl. Yn yr un modd gallant gynnig cyngor ynghylch iechyd y cyhoedd a chymorth i sefydliadau gwirfoddol neu'r trydydd sector o fewn y gymuned ehangach.

Maent yn cydweithio'n rhagweithiol â thimau a gwasanaethau rhyngddisgyblaethol a rhyngasiantaethol i sicrhau bod pobl sydd angen cymorth ehangach ynghylch iechyd y cyhoedd, gofal ac ymyriadau yn cael mynediad teg a chyfiawn at adnoddau iechyd y cyhoedd, sydd yn hybu eu hiechyd a lles, yn atal afiechyd ac yn amddiffyn y rhai sy'n agored i niwed.

Sut i ddarllen y safonau hyn

Mae'r hyfedredd yn y ddogfen hon yn nodi'r wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiadau y mae nyrsys a bydwagedd cofrestredig yn mynd ymlaen i'w cyflawni cefnogaeth a gofal i bobl, cymunedau a phoblogaethau ar draws cwrs bywyd mewn rolau nyrsio iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol.

Maent yn adlewyrchu'r hyn y gall y cyhoedd ei ddisgwyl gan ymwelwyr iechyd SCPHN, nyrsys ysgol, nyrsys iechyd galwedigaethol ac iechyd y cyhoedd SCPHN nyrsys i wybod a gallu gwneud er mwyn arwain, cydweithio, hybu, amddiffyn ac atal afiechyd ar draws hynt bywyd

Safonau craidd hyfedredd sy'n berthnasol i bob maes o SCPHN ymarfer: **HV**, **SN**, **OHN** a **PHN**, ac maent wedi'u grwpio o dan chwech cylchoedd dylanwad, a;

Mae'r safonau hyfedredd craidd hyn yn berthnasol i:




Safonau hyfedredd maes-benodol sy'n berthnasol i bob un o'r meysydd dilynol o ymarfer SCPHN: **HV**, **SN** ac **OHN**, ac maent wedi'u grwpio o dan bedwar o'r chwe maes dylanwad.

Mae'r safonau hyfedredd maes-benodol hyn yn berthnasol i:



Bydd yr hyfedreddau hyn yn darparu nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol ôl-raddedig newydd sy'n ymuno â'r proffesiwn gyda'r wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiadau sydd eu hangen arnynt ar y pwynt cofrestru. Bydd ymwelwyr iechyd SCPHN, nyrsys ysgol, nyrsys iechyd galwedigaethol a PHNs SCPHN yn adeiladu ar yr hyfedreddau hyn wrth iddynt ennill profiad a chyflawni eu cyfrifoldeb proffesiynol. Byddant yn arddangos eu hymrwymiad i ddatblygu fel ymarferydd SCPHN ac i adeiladu llwybr gyrfa, gan gymryd rhan mewn cyfleoedd addysg a datblygiad proffesiynol parhaus sydd eu hangen ar gyfer ail-ddilysu.

Y chwe maes dylanwad	Safonau craidd hyfedreddau Nyrsio Iechyd y Cyhoedd Cymunedol Arbenigol ar gyfer HV, SN, OHN a PHN	Hyfedreddau Craidd a Maes-benodol
	 <p>Craidd = HV SN OHN PHN</p>	
Maes A	Ymarfer nyrsio iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol ymreolaethol	Craidd yn unig
Maes B	Trawsnewid ymarfer nyrsio iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol: tystiolaeth, ymchwil, gwerthuso a dehongli i	Craidd yn unig
Maes C	Hyrwyddo hawliau dynol a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau: asesu, gwyliadwriaeth ac ymyrraeth	Craidd + HV or SN or OHN
Maes D	Plechyd y boblogaeth: galluogi, cefnogi a gwella canlyniadau iechyd pobl ar draws hynt bywyd	Craidd + HV or SN or OHN
Maes E	Hyrwyddo gwasanaethau iechyd y cyhoedd a hyrwyddo lleoedd, amgylcheddau a diwylliannau iach	Craidd + HV or SN or OHN
Maes F	Arwain a chydweithio: o fuddsoddi i weithredu a lledaenu	Craidd + HV or SN or OHN

Natur safonau rheoleiddio

Bwriedir i safonau rheoleiddio fod ar lefel uchel ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau. Maent yn cael eu trosi gan sefydliadau addysg a'u partneriaid lleoli ymarfer i gwricwla a deilliannau dysgu rhaglenni manylach.

Mae'r safonau hyfedredd craidd a maes-benodol hyn yn berthnasol i'r holl HVs, SNs ac OHNs SCPHN cofrestredig gyda'r NMC. Mae'r safonau craidd hyfedredd hefyd yn berthnasol i bob PHN SCPHN cofrestredig gyda'r NMC. Dylent gael eu darllen ochr yn ochr â Gwireddu proffesiynoldeb: Safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant, sy'n nodi ein disgwyliadau o ran darparu'r holl raglenni addysg nyrsio a bydwreigiaeth cyn-gofrestru ac ôl-gofrestru a gymeradwyir gan yr NMC.

Mae'r safonau hyn yn berthnasol i bob darparwr addysg cymeradwy ac fe'u gosodir mewn tair rhan:

Rhan 1: Fframwaith safonau ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth


Rhan 2: Safonau ar gyfer goruchwylio ac asesu myfyrwyr

Rhan 3: Safonau rhaglenni, sef y safonau sy'n benodol ar gyfer pob rhaglen cyn-gofrestru neu ôl-gofrestru.

Rhaid i sefydliadau addysg gydymffurfio â'n safonau i gael eu cymeradwyo i redeg unrhyw raglenni a gymeradwyir gan yr NMC. Gyda'i gilydd nod y safonau hyn yw darparu sefydliadau addysg cymeradwy (SACau) a'u partneriaid dysgu ymarfer gyda'r hyblygrwydd i ddatblygu ymagweddau arloesol at addysg ar gyfer ymwelwyr iechyd SCPHN, nyrsys ysgol, nyrsys iechyd galwedigaethol a nyrsys iechyd y cyhoedd SCPHN tra bod yn atebol am y ddarpariaeth leol a rheoli rhaglenni SCPHN ôl-gofrestru cymeradwy yn unol â'n safonau. Dangosir hyn yn y diagram isod. Dangosir y berthynas rhwng y gwahanol setiau o safonau yn y diagram ar y dudalen nesaf.

Safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant

Rhan 1



Rhan 2




Rhan 3 - Safonau rhaglenni


Cyn-cofrestru



Ôl-cofrestru



Safonau hyfedredd



Fframwaith deddfwriaethol

Mae Erthygl 15(1) [Gorchymyn Nyrzio a Bydwreigiaeth 2001](#) ('y Gorchymyn') yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor sefydlu safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni'r safonau hyfedredd Nyrzio a Bydwreigiaeth ar gyfer ymuno â'r gofrestr, fel sy'n ofynnol gan Erthygl 5(2) y Gorchymyn. Caiff y safonau ar gyfer addysg nyrzio a bydwreigiaeth eu sefydlu yn unol â darpariaeth Erthygl 15(1) y Gorchymyn.

Mae'r safonau ar gyfer darparwyr addysg nyrzio a bydwreigiaeth wedi'u sefydlu o dan ddarpariaeth Erthygl 15(1) y gorchymyn. Mae Erthygl 5(2) y Gorchymyn Nyrzio a Bydwreigiaeth 2001 yn ei gwneud yn ofynnol i'r NMC sefydlu safonau hyfedredd sy'n angenrheidiol i gael eich derbyn i bob rhan o'r gofrestr ac er mwyn cyflawni ymarfer diogel ac effeithiol o dan y rhan honno o'r gofrestr. Mae'r safonau hyfedredd wedi'u sefydlu o dan y ddarpariaeth hon.

Gan fod safonau hyfedredd SCPHN yn safonau ôl-gofrestru, gall unigolion ddim ond mynd i mewn i'r rhan SCPHN o'r gofrestr os ydynt yn nyrs neu fydwraig lefel un gofrestredig ac wedi llwyddo i fodloni holl ofynion eu rhaglen SCPHN a gymeradwyir gan yr NMC. Dim ond y rhai ar ein cofrestr all ddefnyddio'r teitl gwarchoddedig nyrs iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol.

Maes dylanwad A: Ymarfer nyrsio iechyd y cyhoedd arbenigol cymunedol ymreolaethol

Mae Ymwelwyr iechyd SCPHN, nyrsys ysgol, nyrsys iechyd galwedigaethol a nyrsys iechyd y cyhoedd SCPHN yn deall bod iechyd a mynediad i gymorth iechyd yn hawl ddynol sylfaenol. Maent yn defnyddio eu hymreolaeth broffesiynol i addasu a theilwra eu hymateb i anghenion iechyd a lles pobl, cymunedau a phoblogaethau o fewn cyddestunau amrywiol a chyfnewidiol gartref, yn yr ysgol, yn y gweithle ac mewn cymunedau. Maent yn sensitif i wahanol safbwyntiau diwylliannol ac yn eirioli dros ac amddiffyn y bobl, cymunedau a phoblogaethau hynny sydd fwyaf agored i niwed. Maent yn arloesol, creadigol, yn hyrwyddo llythrennedd iechyd ac yn gwneud y defnydd gorau o dechnolegau newydd yn eu hymarfer o ddydd i ddydd.

Maes A: Canlyniadau

Ar adeg cofrestru, bydd yr HV, SN, OHN SCPHN a PHN SCPHN cofrestredig yn gallu:

- A.1** arddangos y gallu i ymarfer gyda lefel uchel o ymreolaeth, entrepreneuriaeth ac arloesedd fel nyrs iechyd y cyhoedd arbenigol cymunedol
- A.2** bod yn llysgennad effeithiol, yn fodel rôl ac yn arweinydd tosturiol, ac yn ddylanwad cadarnhaol ar y proffesiwn
- A.3** defnyddio gwybodaeth estynedig o'r cysylltiadau rhwng strategaethau a pholisïau economaidd-gymdeithasol a gwleidyddol byd-eang a chenedlaethol ac iechyd y cyhoedd i ysgogi a dylanwadu ar eu maes eu hunain o ymarfer SCPHN
- A.4** dethol a chymhwyso gofynion, polisïau a fframweithiau moesegol cyfreithiol, rheoleiddiol a llywodraethu perthnasol i'w ymarfer iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol, gan wahaniaethu rhwng deddfwrfeydd datganoledig y DU
- A.5** arwain ar gymhwyso deddfwriaeth, canllawiau a chyngor ynghylch nodau datblygu cynaliadwy, gan gynnwys ffactorau amgylcheddol a llygryddion eraill sy'n effeithio ar iechyd a lles pobl nawr ac yn y dyfodol
- A.6** dylanwadu a hybu iechyd fel hawl ddynol sylfaenol ac fel [gwerth a rennir](#) trwy ymgysylltu, cynhwysiant a chyfranogiad
- A.7** gwneud dyfarniadau a phenderfyniadau proffesiynol, a gweithio mewn amgylcheddau cymhleth, anghyfarwydd ac anrhagweladwy, mynd ati'n rhagweithiol i nodi camau gweithredu ac atebion i broblemau sy'n gallu bod â llawer o ffactorau rhyngweithiol
- A.8** arwain a hyrwyddo darpariaeth iechyd y cyhoedd sydd yn canolbwyntio ar yr unigolyn, a sydd yn wrth-wahaniaethol, diwylliannol gymwys a chynhwysol
- A.9** arddangos ymwybyddiaeth feirniadol o stigma a'r potensial i ddangos rhagfarn, cymryd camau lle bo angen i addysgu eraill a datrys materion sy'n codi o'r ddau
- A.10** cydnabod yr angen am ac arwain ar gamau gweithredu i ddarparu addasiadau rhesymol ar gyfer pobl, grwpiau a chymunedau, gan ddylanwadu ar newid polisi iechyd y cyhoedd ac arfer gorau
- A.11** arddangos y sgiliau rhifedd, llythrennedd, digidol a sgiliau technolegol sydd eu hangen i ddiwallu anghenion pobl, cymunedau a'r boblogaeth ehangach, er mwyn sicrhau ymarfer nyrsio iechyd y cyhoedd arbenigol diogel ac effeithiol.

Maes dylanwad B:

Trawsnewid ymarfer nyrsio iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol: tystiolaeth, ymchwil, gwerthuso a dehongli

Mae Ymwelwyr iechyd, nyrsys ysgol, nyrsys iechyd galwedigaethol SCPHN a nyrsys iechyd y cyhoedd SCPHN yn lleoli, beirniadu, defnyddio, cynhyrchu ac yn cymhwyso tystiolaeth, data a gwybodaeth sy'n ceisio hybu iechyd ac atal afiechyd ac anabledd o ddewisiadau bywyd, ffactorau amgylcheddol, clefydau anhrosglwyddadwy, trawma neu gyflyrau iechyd eraill. Maent yn gwerthuso ymyriadau iechyd y cyhoedd er mwyn deall yn well beth sy'n gweithio a beth all fod angen ei newid a pham. Maent yn cynnig syniadau a chysyniadau newydd ac arloesol i lywio a gwella iechyd a lles pobl ar hyd hant bywyd ac yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth i optimeiddio rhaglenni ac ymyriadau iechyd y cyhoedd.

Maes B: Canlyniadau

Canlyniadau Ar adeg cofrestru, bydd yr HV, SN, OHN SCPHN a PHN SCPHN cofrestredig yn gallu:

- B.1** asesu effaith a manteision polisiau iechyd lleol a chenedlaethol a pholisiau eraill ar iechyd a lles pobl, cymunedau a phoblogaethau
- B.2** nodi, gwerthuso a defnyddio ffynonellau lluosog o tystiolaeth ac ymchwil sy'n berthnasol i bobl, cymunedau a poblogaethau i lywio ymarfer nyrsio iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol
- B.3** nodi bylchau mewn ymchwil, tystiolaeth a pholisi sy'n effeithio ar ymarfer nyrsio iechyd y cyhoedd a dylanwadu ar sut i fynd i'r afael â'r rhain
- B.4** defnyddio a chymryd rhan yn effeithiol mewn meysydd ymchwil newydd ar draws timau rhyngddisgyblaethol a rhyngasiantaethol yn ymwneud â blaenoriaethau ac ymyriadau iechyd y cyhoedd
- B.5** defnyddio data, ystadegau a gwybodeg ddibynadwy i arwain ar a chefnogi polisiau a rhaglenni sy'n gwella canlyniadau iechyd pobl, cymunedau a phoblogaethau
- B.6** nodi lle nad oes digon o wybodaeth a data ar gael i lywio blaenoriaethau iechyd y cyhoedd a strategaethau ymyrraeth genedlaethol a sut y gellir mynd i'r afael â hyn drwy fireinio setiau data neu wrth gydnabod yr angen am astudiaeth bellach
- B.7** gwerthuso'n feirniadol ymchwil epidemiolegol a dangos ei ddefnydd mewn nyrsio iechyd y cyhoedd arbenigol ar sail tystiolaeth ymarfer
- B.8** cyfosod a chymhwyso gwybodaeth o ymchwil, gwerthuso, archwilio ac arloesi byd-eang sydd yn arwain at welliannau yn iechyd pobl, cymunedau a phoblogaethau ac yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd
- B.9** cymhwyso theori sail tystiolaeth ac egwyddorion iechyd y cyhoedd ac ymarfer nyrsio i gefnogi dulliau arloesol o ddylanwadu ar gymhellant, dewisiadau ac ymddygiad pobl
- B.10** gwerthuso'n feirniadol y dystiolaeth sy'n llywio datblygiadau newydd mewn rhaglenni iechyd y cyhoedd, gan gynnwys genomeg, a gwerthuso mesurau llwyddiant cynnar ac effaith ar ganlyniadau iechyd y boblogaeth
- B.11** rhannu canlyniadau a gwersi a ddysgwyd o archwilio, ymchwil a gwerthuso ymarfer nyrsio iechyd y cyhoedd arbenigol yn lleol ac yn genedlaethol ac ar draws sectorau trwy brosesau proffesiynol ac a adolygir gan gymheiriaid.

Maes dylanwad C:

Hyrwyddo hawliau dynol a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau: asesu, gwyliadwriaeth ac ymyrraeth

Mae ymwelwyr iechyd mewn sefyllfa ddelfrydol i nodi, amlygu a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd oherwydd eu cyrhaeddiad unigryw i bob teulu. Maent yn mynd ati i geisio cynnal hawliau dynol pawb y maent yn ymgysylltu â nhw tra'n cydnabod bod pob teulu yn unigryw a bod ganddynt anghenion unigol. Maent yn eirioli ar ran y rhai sy'n agored i niwed neu sy'n methu siarad drostynt eu hunain.

Mae nyrsys ysgol mewn sefyllfa unigryw i eirioli dros hawliau holl blant a phobl ifanc oedran ysgol, gan gynnwys y rhai sydd yn gallu bod yn agored i niwed ond heb fod yn weladwy i wasanaethau neu asiantaethau eraill. Maent yn ceisio mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd mewn plant oedran ysgol a pobl ifanc, a'u teuluoedd. Maent yn ystyried effaith y sefyllfaoedd teuluol dynamig a chymhleth yn y cartref ar blant oedran ysgol a phobl ifanc, ac effaith eu profiadau addysgol ar eu hiechyd, lles a rhagolygon bywyd yn y dyfodol.

Mae nyrsys iechyd galwedigaethol yn defnyddio eu gwybodaeth arbenigol i gydnabod gwerth gwaith i iechyd a lles, a'r effaith o iechyd ar waith. Gan ddefnyddio eu gwybodaeth a'u profiad o ddylanwadau economaidd-gymdeithasol ehangach ar iechyd a gwaith, maent yn creu gwasanaethau ac yn cynllunio ymyriadau sy'n cyfrannu at fynd i'r afael ag anghydraddoldebau trwy gynyddu mynediad i waith a phrofiad gwell o waith i bawb.

Maes C: Canlyniadau

Canlyniadau Ar adeg cofrestru, bydd yr HV, SN, OHN SCPHN a PHN SCPHN yn gallu:

- C.1** dadansoddi'n feirniadol y ffactorau a all arwain at anghydraddoldebau mewn canlyniadau iechyd ac annhegwch iechyd a chymryd camau gweithredu priodol i liniaru eu heffaith ar bobl, cymunedau a phoblogaethau
- C.2** arddangos arweiniad tosturiol wrth gymhwyso hawliau priodol, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, i wella iechyd a lles pobl, cymunedau a phoblogaethau
- C.3** gwerthfawrogi'r anghenion a heriau cyfreithiol, moesegol, moesol ac ysbrydol y gellir eu hwynebu wrth hybu iechyd y boblogaeth, gan helpu i liniaru rhwystrau sy'n galluogi pobl a teuluoedd i fyw i'w llawn botensial
- C.4** asesu effaith cymhlethdod a chyd-forbidrwydd a'u heffaith ar bobl, cymunedau a phoblogaethau, er mwyn rhannu gwybodaeth ac arwain ar ddulliau iechyd y cyhoedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- C.5** datblygu, hyrwyddo a chefnogi cyfleoedd i addysgu unigolion ar y risgiau iddynt hwy eu hunain ac eraill o chamddefnyddio tybaco, alcohol a sylweddau eraill ac ymddygiadau a allai fod yn gaethiwus
- C.6** cynnal, dehongli a gwerthuso asesu a sgrinio iechyd, gwyliadwriaeth a gwiriadau proffilio ac ymyriadau, a rhaglenni imiwneiddio a brechu i bobl, cymunedau a phoblogaethau
- C.7** sicrhau gwasanaethau teg a hygyrch i bawb trwy cyfathrebu a rhwydweithio gwell ym maes llythrennedd iechyd
- C.8** ymgynghori â, gwranddo ar a chefnogi phobl, cymunedau, a phoblogaethau wrth asesu, cynllunio a chydgyhyrchu ymyriadau ym maes iechyd y cyhoedd
- C.9** defnyddio modelau, tystiolaeth a chysyniadau i gynllunio, cynnal a gwerthuso ymyriadau ar lefel y boblogaeth i fynd i'r afael â materion penodol ynghylch iechyd y cyhoedd
- C.10** cymhwyso dealltwriaeth o benderfynyddion iechyd i ddatblygu ymyriadau iechyd y cyhoedd cynhwysol sy'n ymatebol yn ddiwylliannol gyda phobl, cymunedau a phoblogaethau
- C.11** arwain ar nodi pobl sy'n agored i niwed, teuluoedd, cymunedau a phoblogaethau a chymryd camau i'w cefnogi, diogelu a'u hamddiffyn, a chydgysylltu gofal amserol a chymorth ymatebol arall pan fo angen.

Maes C: Canlyniadau – Ymwelydd Iechyd

Ar adeg cofrestru, bydd yr ymwelydd iechyd SCPHN yn gallu:

- C.HV1** dadansoddi'n feirniadol a chymhwyso gwybodaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth o benderfynyddion iechyd, cylchoedd amddifadedd rhwng cenedlaethau ac anghydraddoldebau iechyd sy'n effeithio ar iechyd a lles meddyliol, corfforol, gwybyddol, ymddygiadol, cymdeithasol, ac ysbrydol plant, rhieni, gofalwyr a theuluoedd
- C.HV2** darparu cymorth i rieni, gofalwyr a theuluoedd wrth ddeall yr hyn sydd ei angen i sicrhau datblygiad iach a lles babanod a phlant
- C.HV3** asesu'n barhaus ac addasu'n fedrus i wahanol amgylcheddau a sefyllfaoedd cymhleth er mwyn nodi ac eirioli dros y teuluoedd hynny sydd fwyaf mewn perygl, tra'n diogelu lles y plentyn ac eraill sydd mewn perygl ar bob amser
- C.HV4** chwarae rhan arwyddocaol wrth hybu iechyd meddwl i rieni, teuluoedd, babanod a phlant yn ystod y cyfnod amenedigol ac wrth asesu a nodi'n gynnar salwch meddwl amenedigol
- C.HV5** darparu gofal a chymorth i fabanod, plant a rhieni a theuluoedd lle bo'n briodol a hwyluso mynediad i wasanaethau iechyd meddwl arbenigol yn ôl lefel yr angen
- C.HV6** hybu iechyd meddwl babanod ac adnabyddiaeth gynnar o drallod babanod, darparu cymorth i deuluoedd i alluogi iddynt flaenoriaethu ac ymateb i anghenion eu babanod
- C.HV7** cychwyn ymyriadau priodol sy'n seiliedig ar dystiolaeth a sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i hybu perthnasoedd iach a lleihau risgiau o drais domestig, cam-drin plant a mathau eraill o gam-drin o fewn y teulu a'r effaith datblygiadol o wrthdaro rhwng rhieni ar blant
- C.HV8** defnyddio eu barn broffesiynol i arsylwi, cydnabod ac ymateb i arwyddion o gam-drin ac esgeulustod ar hyd hynt bywyd, gan gydnabod y bydd anghenion diogelu unigol yn wahano.

Caes C: Canlyniadau – Nyrs Ysgol

Ar adeg cofrestru, bydd y nyrs ysgol SCPHN yn gallu:

- C.SN1** hyrwyddo, cefnogi a gwella iechyd a lles plant a phobl ifanc oedran ysgol yn rhagweithiol, gan gydnabod hawliau'r plentyn bob amser
- C.SN2** gwerthuso'r berthynas rhwng ysgol, bywyd, iechyd meddyliol a chorfforol ac afiechyd ac arwain ar ddulliau ragweithiol o hybu a diogelu iechyd a lles plant a phobl ifanc oedran ysgol tu mewn a thu allan i'r ysgol
- C.SN3** arwain ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n gyfannol, cynhwysol ac ymatebol i anghenion plant a phobl ifanc oedran ysgol
- C.SN4** gwerthuso effaith cylchoedd rhwng cenedlaethau o dibyniaeth ac adfyd ar plant a phobl ifanc oedran ysgol, a sut mae **ffactorau amddiffynnol**, cymorth cynnar, ac ymyriadau'n gwella canlyniadau iechyd
- C.SN5** defnyddio dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth i nodi bregusrwydd ac anghydraddoldeb o fewn y boblogaeth oedran ysgol, gan nodi'r rhai sydd angen cymorth a'r rheini sydd mewn perygl
- C.SN6** diogelu a blaenoriaethu cymorth ar gyfer plant a phobl ifanc oedran ysgol sy'n wynebu'r perygl mwyaf, gan uwchgyfeirio pryderon a darparu arbenigedd ar gyfer llwybrau diogelu ac amddiffyn plant
- C.SN7** defnyddio gwybodaeth arbenigol yn seiliedig ar dystiolaeth o allu, caniatâd, a chyfrinachedd i reoli heriau a gwrthdaro posibl yn ddiogel wrth gymhwyso llwybrau diogelu ac amddiffyn plant i blant a phobl ifanc oedran ysgol unigol
- C.SN8** asesu'r risg o fregusrwydd mewn plant a phobl ifanc oedran ysgol a theuluoedd sy'n cael eu heffeithio gan newidiadau i'w hamgylchiadau, i wneud y mwyaf o fynediad a chymorth gan wasanaethau perthnasol
- C.SN9** meithrin perthnasoedd cadarnhaol a hwyluso cynhwysiant, cydnabod effaith bosibl stigma, rhagfarn a rhagdybiaethau y gall pobl eu gwneud am blant oedran ysgol a phobl ifanc
- C.SN10** arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar hunaniaeth a chefnogi plant a phobl ifanc oedran ysgol i ddatblygu eu hunaniaeth.

Maes C: Canlyniadau – Nyrs Iechyd

Galwedigaethol Ar adeg cofrestru, bydd y nyrs iechyd galwedigaethol SCPHN yn gallu:

- C.OHN1** cyfosod eu gwybodaeth a'u profiad arbenigol i werthuso effaith economaidd-gymdeithasol a gwleidyddol materion yn ymwneud â gwaith ac iechyd i weithredu ymyriadau iechyd galwedigaethol
- C.OHN2** archwilio'n feirniadol y berthynas rhwng **bod heb waith** ac iechyd a'u cysylltiad ag anghydraddoldebau iechyd sy'n effeithio ar bobl, teuluoedd a chymunedau
- C.OHN3** arwain gwasanaeth iechyd galwedigaethol sy'n agored, cyfannol, cynhwysol ac ymatebol i bryderon economaidd-gymdeithasol ac iechyd ehangach gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i ddiogelu a cham-drin o fewn a thu allan i'r gweithle
- C.OHN4** gwerthuso'r berthynas rhwng gwaith, bywyd, iechyd meddyliol a chorfforol ac afiechyd i arwain ar ddulliau rhagweithiol sefydliadol o hyrwyddo ac amddiffyn iechyd a lles o fewn a thu allan i'r gweithle
- C.OHN5** acymhwyso eu gwybodaeth a barn broffesiynol arbenigol i nodi unigolion a allai fod yn agored i niwed neu mewn perygl o gamdriniaeth neu niwed uniongyrchol ac anuniongyrchol o fewn neu y tu allan i'r gweithle, gan uwchgyfeirio ac atgyfeirio'n briodol i weithwyr proffesiynol ac asiantaethau eraill
- C.OHN6** arwain y gwaith o ddatblygu, darparu a gwerthuso gwasanaethau iechyd galwedigaethol cynhwysol, amlswyddogaethol sy'n diwallu anghenion amrywiol gweithwyr a sefydliadau, gan fabwysiadu ymagwedd hynt bywyd
- C.OHN7** cymhwyso gwybodaeth a sgiliau arbenigol i nodi materion iechyd sy'n dod i'r amlwg, a chyfeirio at y cymorth sydd ar gael i gael mynediad i wasanaethau iechyd a gofal ac asiantaethau eraill i gydbwysu iechyd a lles unigolion â rhwymedigaethau cyflogaeth.

Maes dylanwad D: Iechyd y boblogaeth: galluogi, cefnogi a gwella canlyniadau iechyd pobl ar draws hynt bywyd

Mae ymwelwyr iechyd yn cymryd y rôl arweiniol wrth sicrhau bod iechyd plant, rhieni, gofalwyr, teuluoedd, cymunedau a phoblogaethau yn cael ei gynnal, gwella a diogelu er mwyn creu'r sylfaen orau ar gyfer eu hiechyd a'u lles cynaliadwy hirdymor. Maent yn datblygu deialog agored ac ystyrllon yn rhagweithiol gyda theuluoedd i ddatblygu perthnasoedd ymddiriedus ac yn defnyddio'u sgiliau asesu a chyfathrebu lefel uwch i nodi ac asesu angen a blaenoriaethu cymorth yn seiliedig ar risg.

Mae nyrsys ysgol yn deall effaith ffactorau economaidd-gymdeithasol ar iechyd a lles tymor hir plant a phobl ifanc oedran ysgol. Maent yn datblygu'n rhagweithiol sgysiau agored ac ystyrllon gyda phlant oedran ysgol, pobl ifanc a theuluoedd ac yn defnyddio eu gwybodaeth i wneud ymyriadau priodol i gefnogi a grymuso plant a phobl ifanc oedran ysgol yn eu dewisiadau bywyd i atal afiechyd, rheoli risgiau sy'n dod i'r amlwg a gwella canlyniadau iechyd a bywyd parhaus.

Mae nyrsys iechyd galwedigaethol yn defnyddio eu gwybodaeth arbenigol a barn broffesiynol i ddatblygu strategaethau cynhwysol i'r gweithle sy'n galluogi pobl o bob gallu i aros yn iach, ac yn gynhyrchiol mewn gwaith. Maent yn dylunio gwasanaethau iechyd galwedigaethol sy'n ychwanegu gwerth at gyflogeion, cyflogwyr a sefydliadau.

Maes D: Canlyniadau

Canlyniadau Ar adeg cofrestru, bydd yr HV, SN, OHN SCPHN a PHN SCPHN cofrestredig yn gallu:

- D.1** adnabod, gwerthuso'n feirniadol a monitro tueddiadau mewn strategaethau a rhaglenni byd-eang a chenedlaethol a ar gyfer ymyriadau ataliol a hyrwyddo iechyd i lywio ymarfer iechyd y cyhoedd arbenigol yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang
- D.2** cydnabod a darparu ar gyfer unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol ynghylch cymhwyso genomeg yn eu hymarfer SCPHN i cefnogi atal ac ymyrraeth gynnar yn iechyd y boblogaeth ar draws hynt bywyd
- D.3** gwerthfawrogi a defnyddio asedau ac adnoddau cymunedol i cefnogi iechyd a lles cadarnhaol pobl, cymunedau a phoblogaethau
- D.4** mewn partneriaeth â phobl, mabwysiadu ymagwedd hynt bywyd wrth asesu anghenion iechyd y cyhoedd ymhlith pobl, cymunedau a poblogaethau
- D.5** grymuso pobl, cymunedau a phoblogaethau i gysylltu'n effeithiol gyda mentrau lleol, rhwydweithiau cymorth, [asedau cymunedol](#), rhaglenni ac adnoddau sy'n cefnogi eu hiechyd a lles
- D.6** cymhwyso gwybodaeth arbenigol am ragnodi cymdeithasol i gefnogi canlyniadau iechyd unigol, cymunedol a phoblogaeth
- D.7** cymhwyso gwybodaeth am wyddorau ymddygiadol, seicolegol a chymdeithasol i iechyd pobl ar draws hynt bywyd, ac i gymunedau a phoblogaethau, i wella perthnasoedd therapiwtig cydweithredol, sy'n seiliedig ar gryfder
- D.8** gwerthfawrogi pwysigrwydd rheoli meddyginiaethau gyda parch at weinyddu, optimeiddio a chymodi, ac effaith gadarnhaol rheoli meddyginiaethau'n gywir ar canlyniad iechyd pobl nawr ac yn y dyfodol
- D.9** asesu statws iechyd a llythrennedd iechyd poblogaethau ar draws hynt bywyd a'u penderfynyddion iechyd cysylltiedig
- D.10** defnyddio dulliau sy'n ddiwylliannol briodol ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth i asesu, cefnogi a monitro iechyd a lles o bobl, ac atgyfeirio'n briodol at wasanaethau arbenigol os oes angen

- D.11** cymhwyso gwybodaeth am boblogaethau, lleoedd, cymunedau a phenderfynyddion iechyd yn feirniadol i lywio meysydd arbenigol allweddol ymarfer iechyd y cyhoedd
- D.12** mewn partneriaeth â chymunedau, datblygu a gweithredu cynlluniau ar gyfer cymunedau a phoblogaethau lleol er mwyn cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau iechyd y cyhoedd
- D.13** arwain a chyfrannu at bolisiâu ac adrodd ar **ffactorau cymdeithasol-strwythurol**, amgylcheddol, ac ymddygiadau unigol sy'n effeithio ar iechyd pobl ar hyd hant eu bywyd
- D.14** defnyddio data ac arsylwi i werthuso effeithiolrwydd a derbynioldeb gwasanaethau sy'n ceisio gwella canlyniadau iechyd eu defnyddwyr arfaethedig, a gallu nodi tueddiadau neu angen am welliant.

Maes D: Canlyniadau – Ymwelydd Iechyd

Ar adeg cofrestru, bydd yr ymwelydd iechyd SCPHN yn gallu:

- D.HV1** arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth arbenigol o anatomeg, ffisioleg, geneteg, genomeg a datblygiad babanod a phlant wrth gynnal asesiadau iechyd wedi'u rhaglennu ac adolygiadau datblygiad
- D.HV2** cymhwyso gwybodaeth arbenigol a defnyddio offer wedi'u dilysu i gyflawni asesiadau iechyd cyfannol ac adolygiadau iechyd a datblygiad wedi'u rhaglennu, gan weithio mewn partneriaeth â rhieni a theuluoedd i hyrwyddo iechyd a nodi pryderon sy'n dod i'r amlwg a rhai sy'n bodoli eisoes gan gynnwys bregusrwydd ac anghydraddoldeb, a hwyluso a blaenoriaethu cymorth a/neu ymyrraeth gynnar i'r plentyn a'r teulu fel sy'n briodol
- D.HV3** asesu ar gyfer arwyddion cynnar o batrymau datblygu annodweddiadol, neu anomaleddau sylweddol a allai arwain at risgiau neu anghenion ynghylch anabledd neu iechyd emosiynol, corfforol neu ddatblygiadol, a darparu arweiniad rhagweledol sy'n seiliedig ar dystiolaeth neu ymyriad wedi'i dargedu wedi'i deilwra i amgylchiadau ac anghenion unigol a theuluol
- D.HV4** cymhwyso sgiliau cyfathrebu a rhyngpersonol lefel uwch i sefydlu perthnasoedd ymddiriedus sy'n parchu galluoedd, blaenoriaethau a gwerthoedd teuluoedd
- D.HV5** gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd i asesu ac arfarnu'n barhaus effaith cryfderau hysbys, amgylchiadau newidiol a pherthnasoedd ar iechyd a lles plant a theuluoedd ac addasu cymorth yn unol â hynny, gan gydnabod anghenion y teulu cyfan a blaenoriaethu cymorth ar sail risg ac angen uniongyrchol a pharhaus
- D.HV6** gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd i hyrwyddo, addysgu a chefnogi perthnasoedd sensitif, ymatebol rhwng rhieni a'u plant trwy gymhwyso gwybodaeth arbenigol am ddatblygiad emosiynol cynnar, damcaniaethau a modelau ymlyniad ac effeithiau perthnasoedd cadarnhaol a pharhaus rhwng rhiant a phlentyn
- D.HV7** gwerthuso effeithiau trawma ar ddatblygiad plant a sut maent yn addasu i'r effeithiau hynny, a gweithio mewn partneriaeth â phlant a theuluoedd y mae trawma yn effeithio arnynt i gryfhau eu gwytnwch

- D.HV8** cymhwyso gwybodaeth arbenigol yn feirniadol am anatomeg, niwroddatblygiad, ffisioleg ac epigeneteg sy'n berthnasol i faeth babanod, gan gynnwys goblygiadau bwydo babanod, diddyfnu ac ymddygiad bwyd cynnar i sicrhau'r iechyd gorau posibl i blant a mamau, datblygiad corfforol a chymdeithasol-emosiynol plant a phatrymau ymddygiad yn y dyfodol
- D.HV9** defnyddio dull sy'n seiliedig ar gryfder i gefnogi plant a theuluoedd i nodi risgiau i bwysau iach yn ystod plentyndod, hyrwyddo maeth teuluol a'u cefnogi i wneud y dewisiadau gorau posibl sydd ar gael, gan atgyfeirio i wasanaethau eraill yn ôl angen a risg
- D.HV10** gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd i gefnogi perthnasoedd cadarnhaol, meithringar rhwng plant a theuluoedd, a hyrwyddo'r manteision i blant a ddaw o ddysgu sgiliau bywyd yn amgylchedd y cartref
- D.HV11** cefnogi rhieni a theuluoedd sy'n cael diagnosis sy'n newid bywyd neu'n cyfyngu ar fywyd yn ystod beichiogrwydd ac yn y blynyddoedd cynnar, ac mewn partneriaeth â nhw, defnyddio dull grymusol sy'n [seiliedig ar gryfder](#) i ymateb i'w hanghenion, a all fod yn gymhleth
- D.HV12** defnyddio gwybodaeth arbenigol i hwyluso mynediad at ystod o adnoddau priodol ac effeithiol sydd ar gael i gefnogi plant, rhieni a theuluoedd ag anghenion ychwanegol oherwydd salwch meddwl a/neu gorfforol, anabledau dysgu neu anabledd corfforol, a/neu'r rhai sy'n byw gyda chyflyrau lluosog, cymhleth, hirdymor
- D.HV13** cefnogi plant, rhieni a theuluoedd i ddatblygu cymhelliant a hunan-eiriolaeth wrth godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd ar gyfer grantiau lleol, cymorth ariannol ac asedau a gwasanaethau cymunedol lleol eraill
- D.HV14** cynghori rhieni, gofalwyr a theuluoedd ar nodi a lleddfu symptomau, gan eu galluogi i reoli mân afiechydon ac anafiadau yn ddiogel ac yn effeithiol, ac wrth wybod pryd i geisio cymorth ar gyfer triniaeth bellach lle bo angen
- D.HV15** darparu cymorth a chynghor yn seiliedig ar dystiolaeth ar iechyd rhywiol ac atgenhedlol ac atal cenhedlu i blant, pobl ifanc ac oedolion
- D.HV16** darparu cymorth sy'n seiliedig ar dystiolaeth i rieni, plant a theuluoedd mewn profedigaeth yn achos camesgoriad, marwenedigaeth neu farwolaeth rhiant ac atgyfeirio i gymorth ychwanegol fel y bo'n briodol.

Maes D: Canlyniadau – Nyrs Ysgol

Ar adeg cofrestru, bydd y nyrs ysgol SCPHN yn gallu:

- D.SN1** cymhwyso gwybodaeth arbenigol am ddatblygiad iach plant a phobl ifanc oedran ysgol a defnyddio offer wedi'u dilysu i gyflawni [asesiadau iechyd cyfannol](#) ac adolygiadau datblygu wedi'u rhaglennu sy'n anelu at wella canlyniadau iechyd unigolion, cymunedau a'r boblogaeth
- D.SN2** dadansoddi'n feirniadol a chymhwyso gwybodaeth arbenigol o ddatblygiad [bioseicogymdeithasol](#), moesol ac ysbrydol plant a phobl ifanc oedran ysgol ym mhob cyfnod allweddol yn eu bywyd
- D.SN3** gwerthuso sut mae oedran a datblygiad bioseicogymdeithasol yn dylanwadu ar sgiliau cyfathrebu yn y boblogaeth oedran ysgol, gan ddefnyddio technegau cyfathrebu uwch i hwyluso perthnasoedd cadarnhaol, llawn ymddiriedaeth gyda phlant a phobl ifanc oedran ysgol, rhieni, gofalwyr a theuluoedd
- D.SN4** gwerthuso sut mae dylanwadau bioseicogymdeithasol yn ystod y blynyddoedd glasoed yn effeithio ar ymddygiad, sgiliau bywyd a phontio i fyd oedolion, gan gydnabod llencyndod fel cam penodol o hynt bywyd
- D.SN5** asesu effaith cyfnodau a digwyddiadau pontio allweddol ar gyfer plant a phobl ifanc oedran ysgol gan gynnwys dechrau a gadael yr ysgol, newid darparwr gofal, salwch a phrofedigaeth, a chymhwyso myrraeth briodol i gefnogi eu datblygiad o ymddygiadau hunanreoli
- D.SN6** defnyddio ystod o ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gefnogi pontio diogel gan bobl ifanc i fyd oedolion
- D.SN7** optimeiddio ymddygiadau cadarnhaol ymhlith rhieni, gofalwyr, teuluoedd a chyfoedion a, thrwy ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, hyrwyddo ymddiriedaeth a [hunan-effeithiolrwydd](#) i wella iechyd a lles plant a phobl ifanc oedran ysgol
- D.SN8** cefnogi plant a phobl ifanc oedran ysgol, rhieni a theuluoedd i ddatblygu cymhelliant a hunan-eiriolaeth wrth godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd ar gyfer grantiau lleol, cymorth ariannol ac asedau a gwasanaethau cymunedol lleol eraill

- D.SN9** defnyddio arsylwadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, asesu a defnyddio barn broffesiynol wrth gymryd camau i atal a lleihau'r risg o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod ac adeiladu ar ffactorau amddiffynnol i gefnogi ac arwain plant a phobl ifanc oedran ysgol, rhieni a gofalwyr
- D.SN10** arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o lythrennedd emosiynol, gallu gwybyddol, lles a sgiliau gwydnwch plant a phobl ifanc oedran ysgol wrth arsylwi, asesu a gwneud penderfyniadau ar yr ymyriad priodol
- D.SN11** defnyddio barn broffesiynol i asesu am arwyddion cynnar o hwyliau isel a gorbryder mewn plant a phobl ifanc oedran ysgol, a darparu ymyriadau cynnar i gefnogi iechyd a lles emosiynol a meddyliol
- D.SN12** gwerthuso sut mae ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn helpu plant a phobl ifanc oedran ysgol i ystyried effeithiau a risgiau sy'n gysylltiedig â dewisiadau ymddygiad penodol sy'n ymwneud â chyfryngau cymdeithasol, alcohol/sylweddu, trais, camfanteisio a diwylliant gangiau
- D.SN13** gwerthuso effeithiau trawma ar ddatblygiad ac addasiad plant a phobl ifanc a defnyddio dulliau sy'n ddiwylliannol briodol, wedi'u seilio ar dystiolaeth ac wedi'u llywio gan drawma i asesu, cefnogi a monitro, gan ddefnyddio barn broffesiynol wrth wneud penderfyniadau i atgyfeirio at wasanaethau arbenigol.

Maes D: Canlyniadau – Nyrs Iechyd Galwedigaethol

Ar adeg cofrestru, bydd y nyrs iechyd galwedigaethol SCPHN yn gallu:

- D.OHN1** defnyddio tystiolaeth i gyfiawnhau effaith a gwerth gwasanaethau iechyd galwedigaethol ar gyfer cyflogeion, sefydliadau a'r boblogaeth ehangach
- D.OHN2** cymhwyso gwybodaeth arbenigol i ddehongli, llywio a darparu cyngor diduedd ar ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch a chyfraith achosion
- D.OHN3** dadansoddi'n feirniadol a chymhwyso egwyddorion hylendid galwedigaethol, rheolaethau peirianeg ac ergonomeg wrth gynghori ar greu a chynnal amgylcheddau gwaith iach
- D.OHN4** gwerthuso sut mae clefyd, salwch a nam yn gweithredu fel rhwystrau i gael, cynnal a dychwelyd i waith ac effaith hyn ar bobl a phob agwedd ar fywyd
- D.OHN5** dylanwadu a darparu cyngor diduedd ar ddyluniad gweithleoedd cynhwysol, addasol a chefnogol
- D.OHN6** datblygu strategaethau cynhwysol sy'n galluogi ymagweddau arloesol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer cyflogeion y gallai fod angen cyfaddasiadau ac addasiadau arnynt i'w gwaith oherwydd rhesymau iechyd a lles
- D.OHN7** datblygu strategaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gefnogi a galluogi cyflogeion â chyflyrau lluosog neu hirdymor i gael gwaith cynaliadwy, cynhyrchiol a boddhaus
- D.OHN8** darparu cyngor iechyd galwedigaethol arbenigol, personol ar addasiadau gwaith i gyflogeion a chyflogwyr sy'n ystyried effaith diagnosisu, therapïau, ymyriadau, meddyginiaethau a thriniaethau
- D.OHN9** cymhwyso gwybodaeth a sgiliau arbenigol i gyfrannu at gynllunio ar gyfer trychineb sefydliadol a pharodrwydd i gefnogi parhad busnes ac wrth wneud y gorau o ddiogelwch ac iechyd parhaus pobl.

Maes dylanwad E:

Hyrwyddo gwasanaethau iechyd y cyhoedd ahyrwyddo lleoedd, amgylcheddau a diwylliannau iach

Mae ymwelwyr iechyd yn mynd ati i chwilio am gyfleoedd i hyrwyddo a gwella gwasanaethau ymwelwyr iechyd ac ansawdd y gofal a ddarperir i blant, rhieni, gofalwyr a theuluoedd gan eu gwasanaethau. Maent yn hyrwyddo amgylcheddau, agweddau a diwylliannau iach ar gyfer babanod a phlant sy'n cydnabod ac yn parchu natur unigol unigryw pob lleoliad cartref ac uned deuluol.

Mae nyrsys ysgol yn hyrwyddo gwerth gwasanaethau nyrsio ysgol yn weithredol wrth weithio ar y cyd ag addysgwyr, awdurdodau lleol, sefydliadau'r sector gwirfoddol, y sector cyfiawnder ieuencid a'u cymuned leol. Maent yn annog datblygu amgylcheddau a diwylliannau iach ac yn gwerthuso effaith y rhain ar iechyd a lles plant a phobl ifanc oedran ysgol.

Mae nyrsys iechyd galwedigaethol yn rhoi iechyd a lles yn ganolog wrth gynllunio swyddi a strategaethau'r gweithle. Gyda'u mewnbwn arbenigol maent yn helpu i ymgorffori mentrau iechyd a lles cyflogeion o fewn y cylch cynllunio busnes, gan arwain ar strategaethau uchelgeisiol sydd hefyd yn amgylcheddol gadarn. Maent yn harneisio technolegau newydd a datblygol sy'n galluogi pawb mewn cymdeithas i gymryd rhan mewn gwaith mewn.

Maes E: Canlyniadau

Ar adeg cofrestru, bydd yr HV, SN, OHN SCPHN a PHN SCPHN cofrestredig yn gallu:

- E.1** gwerthuso'n feirniadol a chymhwyso strategaethau a mentrau sy'n gwella diwylliannau ac amgylcheddau cartref, cymuned a gweithle i wella iechyd a lles pobl a chymunedau yn y lleoedd y maent yn byw, yn dysgu ac yn gweithio
- E.2** gwerthuso'n feirniadol y defnydd o dechnolegau newydd a chynorthwyol sy'n cefnogi ac yn dylanwadu ar ddewisiadau pobl o ran eu hiechyd a'u lles eu hunain, a chynorthwyo gyda mynediad at wasanaethau
- E.3** dangos craffter busnes ac ariannol proffesiynol wrth ddatblygu a chyflwyno achosion busnes i greu buddsoddiad ar gyfer newid a gwerth am arian
- E.4** teilwra rhaglenni cenedlaethol neu gomisiynu gwasanaethau newydd sy'n hyrwyddo diwylliannau, amgylcheddau ac ymddygiadau iach i'w gweithredu'n lleol a gwerthuso eu heffeithiolrwydd
- E.5** arwain a chefnogi diwylliant o ddysgu a datblygiad proffesiynol parhaus i gydweithwyr, a chyda thimau rhyngddisgyblaethol a rhyngasiantaethol
- E.6** adnabod galluoedd ac anghenion dysgu unigol wrth gymhwyso'r safonau addysg a hyfforddiant ar gyfer myfyrwyr nyrsio, bydwreigiaeth a chymdeithion nyrsio cyn ac ar ôl cofrestru, er mwyn addysgu, goruchwyllo ac asesu'n effeithiol
- E.7** hyrwyddo ac arwain diwylliannau iechyd y cyhoedd effeithiol yn y gweithle sydd o fudd i bobl, cymunedau a phoblogaethau
- E.8** hyrwyddo iechyd y cyhoedd trwy nodi nodau datblygu cynaliadwy a pharatoi i weithredu ar risgiau i'r amgylchedd a'i effaith ar iechyd a lles pobl
- E.9** rhannu gwybodaeth am glefydau trosglwyddadwy a dulliau sy'n angenrheidiol ar gyfer gwyliadwriaeth ar glefydau trosglwyddadwy, atal a rheoli heintiau, gan gynnwys rhaglenni imiwneiddio a brechu

- E.10** gwybod sut i asesu a rheoli digwyddiadau ac achosion mawr gan gynnwys halogiad a chlefydau trosglwyddadwy ar draws ffiniau lleol neu ehangach
- E.11** gwybod sut i nodi, dadansoddi'n feirniadol a rheoli peryglon a risgiau newydd a pharhaus i iechyd ar lefelau lleol, cenedlaethol a byd-eang
- E.12** cynllunio ar gyfer argyfyngau a bygythiadau pandemig i iechyd y boblogaeth gan ystyried y risg, uniongyrchol ac ehangach, effeithiau a **hierarchaeth rheolaethau** ar iechyd a lles a darpariaeth gwasanaeth.

Maes E: Canlyniadau – Ymwelydd Iechyd

Ar adeg cofrestru, bydd yr Ymwelydd Iechyd SCPHN yn gallu:

- E.HV1** gweithio mewn partneriaeth â rhieni a gofalwyr i hyrwyddo diogelwch plant, lleihau ymddygiadau risg a gwella ymwybyddiaeth o'r gwahaniaethau risg mewn perthynas ag oedran y plentyn, ei gyfnod datblygu ac amgylchedd y cartref
- E.HV2** parchu angen rhieni a gofalwyr am ymreolaeth a rheolaeth gyda sensitifrwydd i ystod eang o agweddau, gwerthoedd, credoau, disgwyliadau, ffydd, diwylliannau ac ymagweddau at rianta, gan ddefnyddio dull tryloyw wrth ddiogelu lles y plant bob amser
- E.HV3** arddangos sensitifrwydd a pharch at breifatrwydd wrth asesu a yw sefyllfa ac amgylchedd cartref y plentyn neu'r teulu yn briodol ar gyfer hwyluso ac annog trafodaeth agored a datgelu materion personol
- E.HV4** gwerthuso anghenion ac asedau iechyd cymunedol, a datblygu arfer trwy broffilio cymunedol, cyfosod a chymhwyso data a gwybodaeth, defnyddio gwybodeg, a thechnegau eraill
- E.HV5** datblygu strategaethau ymweliadau iechyd cynaliadwy ac arloesol sy'n cyfrannu at **ymyriadau cymhleth seiliedig ar le** a sy'n gwella canlyniadau iechyd y cyhoedd i blant a theuluoedd, gan adrodd ar ganlyniadau a meysydd i'w gwella yn unol â llywodraethu lleol a chenedlaethol a gofynion archwilio.

Maes E: Canlyniadau – Nyrs Ysgol

Ar adeg cofrestru, bydd y Nyrs Ysgol SCPHN yn gallu:

- E.SN1** defnyddio proffilio cymunedau a phoblogaeth i nodi ac asesu anghenion a blaenoriaethau iechyd a lles ar gyfer plant a phobl ifanc oedran ysgol
- E.SN2** arwain, cefnogi ac eirioli dros ddatblygiadau diwylliannol a chymunedol cydweithredol sy'n gwella iechyd a lles y boblogaeth oedran ysgol
- E.SN3** arwain, cydgynllunio, darparu a gwerthuso ymgyrchoedd addysg iechyd, hyrwyddo iechyd a diogelwch lleol sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau iechyd y cyhoedd allweddol ar gyfer plant a phobl ifanc oedran ysgol
- E.SN4** cydnabod effaith amgylchedd yr ysgol, ei diwylliant a'r perthnasoedd y mae plant a phobl ifanc oedran ysgol yn eu ffurfio a'u heffaith ar eu hiechyd, eu lles a'u cyflawniad
- E.SN5** codi ymwybyddiaeth o effaith anfantais economaidd-gymdeithasol gan gynnwys tlodi digidol, a gweithio gydag eraill i hwyluso newidiadau polisi sy'n cefnogi plant a phobl ifanc oedran ysgol i gyflawni eu potensial
- E.SN6** gwerthuso profiadau bywyd a all effeithio ar ymddygiad, iechyd a lles plant a phobl ifanc oedran ysgol, gan sicrhau bod eu hanghenion, eu hawliau a'u diogelwch yn parhau i fod yn hollbwysig ac yn ganolog i bob ymyriad cynllunio
- E.SN7** parchu angen rhieni a gofalwyr am ymreolaeth a rheolaeth gyda sensitifrwydd i ystod eang o agweddau, gwerthoedd, credoau, disgwyliadau, ffydd, diwylliannau ac ymagweddau at rianta, gan ddefnyddio dull tryloyw wrth ddiogelu lles plant a phobl ifanc bob amser.

Maes E: Canlyniadau – Nyrs Iechyd Galwedigaethol

Ar adeg cofrestru, bydd y Nyrs Iechyd Galwedigaethol SCPHN yn gallu:

- E.OHN1** datblygu strategaethau iechyd galwedigaethol cynaliadwy, a ysgogir gan ddata gyda nodau tymor byr, canolig a hir i wella iechyd a lles cyflogeion, wedi'u hymgorffori fel rhan o'r cylch gwella busnes
- E.OHN2** canolbwyntio ar gynhwysiant ac arloesedd wrth ddylunio swydd i arwain, gwella ac arloesi ffyrdd o fynd i'r afael â pheryglon iechyd trwy ddileu, lliniaru a rheoli
- E.OHN3** arwain ar ymateb sefydliadol i ddulliau diogel, priodol ac economaidd hyfyw o reoli gwastraff ar gyfer bwyd, cemegau peryglus, gwastraff biolegol a chlinigol, gan ystyried mesurau rheoli heintiau ac effaith llygredd amgylcheddol ar iechyd a lles
- E.OHN4** cydnabod a gweithredu ar bwysigrwydd effaith amgylcheddol prosesau a chynhyrchion gwaith, a chydweithio ar leihau a rheoli allyriadau a llygryddion eraill a allai effeithio ar ddiogelwch, iechyd a lles a'r amgylchedd
- E.OHN5** archwilio'n feirniadol a chymhwyso'r hierarchaeth reolaeth i reoli risgiau i iechyd, diogelwch a lles yn y gweithle
- E.OHN6** rhagweld ac arfarnu effaith technoleg newydd a thechnoleg sy'n dod i'r amlwg i wella [ymarferoldeb](#) nawr ac yn y dyfodol
- E.OHN7** hwyluso addasiadau'r gweithle sy'n galluogi cyfranogiad ehangach i bobl mewn gwaith, gan ddefnyddio technolegau cynorthwyol yn effeithiol
- E.OHN8** gwerthuso effaith ailgynllunio swyddi a'r angen posibl am ddatblygu sgiliau a/neu adleoli ar iechyd a lles pobl
- E.OHN9** archwilio'n feirniadol effaith bod heb waith ar iechyd a lles pobl, teuluoedd a chymunedau
- E.OHN10** gwerthuso'n feirniadol a defnyddio technolegau cynorthwyol, cydnabod eu heffaith amrywiol bosibl ar waith ac iechyd pobl unigol.

Maes dylanwad F:

Arwain a chydweithio: o fuddsoddi i weithredu a lledaenu

Mae ymwelwyr iechyd yn cymryd y rôl arweiniol o ran darparu, rheoli a chydlynu gofal. Maent yn hyrwyddo cydweithio, trwy arwain a gweithio o fewn timau rhyngddisgyblaethol a rhyngasiantaethol a sicrhau pontio esmwyth rhwng gwasanaethau, a hefyd drwy weithio mewn partneriaeth â theuluoedd, cymunedau a phoblogaethau.

Mae nyrsys ysgol yn arwain, rheoli a chydlynu gwasanaethau nyrsio ysgol a llwythi achosion unigol. Maent yn cydweithio â thimau a gwasanaethau rhyngddisgyblaethol a rhyngasiantaethol i sicrhau bod rhaglenni iechyd y cyhoedd yn cael eu hymgorffori mewn ysgolion ac yn y gymuned leol. Mae nyrsys ysgol yn arwain gwasanaethau cyffredinol diogel ac effeithiol, ymyriadau cymorth cynnar ac yn darparu ymyriadau wedi'u targedu i blant a phobl ifanc oedran ysgol pan fo angen.

Mae nyrsys iechyd galwedigaethol yn arweinwyr gwasanaethau, gyda'r gallu i ddylanwadu ar gynllunio strategol a llunio polisiau. Maent yn dod â'u gwybodaeth a'u sgiliau nyrsio arbenigol unigryw, gan eu cyfuno â'r crafter busnes sydd ei angen i gynllunio'r adnoddau ar gyfer ymyriadau galwedigaethol sydd wedi'u teilwra i ofynion penodol y cyflogaeth a'r sefydliadau y maent yn gweithio gyda nhw.

Maes F: Canlyniadau

Ar adeg cofrestru, bydd yr HV, SN, OHN SCPHN cofrestredig a PHN SCPHN yn gallu:

- F.1** arwain gwasanaethau iechyd y cyhoedd sy'n hyrwyddo ac yn gwella iechyd a lles pobl, cymunedau a phoblogaethau
- F.2** arwain timau sy'n effeithiol wrth ddarparu gwasanaethau iechyd y cyhoedd, ar eu pen eu hunain ac ar y cyd ag eraill
- F.3** asesu gofynion gwasanaeth gan ddylanwadu ac arwain ar ddatblygu polisi a chynllunio strategol i fynd i'r afael ag anghenion iechyd y boblogaeth gan ymgorffori dulliau ar gyfer atal a rheoli risg
- F.4** monitro ac adrodd ar ganlyniadau strategaeth a gweithredu polisi a gwneud argymhellion ar gyfer gwella gan gynnwys newidiadau i gomisiynu
- F.5** gwerthuso effeithiolrwydd darpariaeth gwasanaeth trwy driongli gwybodaeth a gafwyd o archwilio, gweithgarwch gwella parhaus, llywodraethu, rheoli risg a monitro perfformiad
- F.6** arwain a chefnogi diwylliant o fyfyrion beirniadol a datblygiad proffesiynol parhaus yn dosturiol sy'n hyrwyddo dysgu tîm a dysgu rhyngddisgyblaethol
- F.7** adeiladu cynghreiriau a phartneriaethau sy'n cefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth a chynhwysiant, cydweithio a rhannu syniadau ac arloesiadau newydd a gallu cytuno ar nodau a blaenoriaethau a rennir
- F.8** defnyddio ystod o sgiliau cyfathrebu uwch gyda phobl, cymunedau, cyfoedion a chydweithwyr rhyngddisgyblaethol a rhyngasiantaethol, gan gynnwys defnyddio dulliau digidol a dulliau eraill i gefnogi cyfathrebu mewn amgylcheddau rhithwir ac o bell
- F.9** cyfathrebu gwybodaeth syml a chymhleth ynghylch iechyd y cyhoedd mewn amrywiaeth o fformatau, wedi'i theilwra ar gyfer gwahanol gynulleidfaedd cymunedol a phoblogaeth
- F.10** defnyddio amrywiaeth o dechnegau i ddylanwadu, herio a pherswadio cymheiriaid ac uwch randdeiliaid mewn perthynas â strategaethau a pholisïau iechyd y cyhoedd sy'n effeithio ar bobl, cymunedau a phoblogaethau.

Maes F: Canlyniadau – Ymwelydd Iechyd

Ar adeg cofrestru, bydd yr ymwelydd iechyd SCPHN yn gallu:

- F.HV1** arwain dulliau creadigol, hyblyg o ymgysylltu â rhieni a gofalwyr mewn rhaglenni hyrwyddo iechyd plant, gan ddarparu cyngor a chymoth i alluogi cydgynllunio a gwneud penderfyniadau ar y cyd
- F.HV2** arwain trafodaethau a chydweithio ar ddatblygu gwasanaethau i blant ag anghenion iechyd a gofal ag effaith uchel a sicrhau bod y gweithlu'n barod ar gyfer gweithredu
- F.HV3** cynnwys, uwchgyfeirio, adrodd a gwneud penderfyniadau gyda thimau rhyngddisgyblaethol a rhyngasiantaethol ar y risg uniongyrchol a pharhaus o drais domestig, cam-drin plant a mathau eraill o gam-drin i ddiogelwch babanod, plant a theuluoedd a chydweithio ar yr holl gamau gweithredu angenrheidiol
- F.HV4** arwain trafodaethau rhyngddisgyblaethol a rhyngasiantaethol a gwneud penderfyniadau ynghylch atgyfeirio, trosglwyddo, cefnogi a rheoli plant a theuluoedd lle mae anghenion a/neu pryderon cymhleth ynghylch iechyd meddwl neu iechyd corfforol
- F.HV5** gweithio mewn partneriaeth â bydwragedd a thimau a gwasanaethau rhyngddisgyblaethol a rhyngasiantaethol eraill yn ystod y cyfnod cyn-geni a dyddiau cyntaf bywyd y baban i sicrhau cysondeb a pharhad gofal i fabanod, rhieni a gofalwyr, a throsglwyddiad esmwyth rhwng gwasanaethau bydwreigiaeth a gwasanaethau ymwelwyr iechyd
- F.HV6** gweithio mewn partneriaeth â nyrsys ysgol i sicrhau bod y broses o drosglwyddo cymorth i'r plentyn a'r teulu o'r ymwelydd iechyd i'r gwasanaeth nyrsio ysgol yn gadarnhaol, yn ddi-dor ac yn effeithiol

Maes F: Canlyniadau – Nyrs Ysgol

Ar adeg cofrestru, bydd y Nyrs Ysgol SCPHN yn gallu:

- F.SN1** cyfod data, gwybodaeth a manylion eraill sy'n ymwneud ag amgylcheddau'r cartref, yr ysgol a'r gymuned, a defnyddio barn broffesiynol i bennu sut y gellir adrodd yn eang ar y wybodaeth hon er mwyn dylanwadu'n gadarnhaol ar bolisi a strategaeth i wella iechyd a lles
- F.SN2** gwerthuso gwasanaethau presennol i nodi bylchau yn y cymorth sydd ar gael ar gyfer plant a phobl ifanc oedran ysgol a datblygu strategaethau i wneud y mwyaf o gymorth a mynediad at wasanaethau perthnasol yn ôl oedran ac aeddfedrwydd
- F.SN3** eirioli dros blant a phobl ifanc oedran ysgol mewn gwasanaethau iechyd y cyhoedd, gan sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed, cefnogi cyd-gynhyrchu, cydgynllunio a datblygu ar lefelau gwasanaeth cyffredinol, targedig ac arbenigol
- F.SN4** dylunio ac arwain y gwaith o ddarparu a gwerthuso gwasanaethau nyrsio ysgol sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ymgyrchoedd addysgol ac ymyriadau a **gydgynhyrchir** sy'n cyd-fynd â mentrau iechyd y cyhoedd rhanbarthol a chenedlaethol i amddiffyn a hyrwyddo iechyd a lles plant a phobl ifanc oedran ysgol
- F.SN5** defnyddio gwybodaeth, sgiliau a thystiolaeth arbenigol ynghylch iechyd y cyhoedd wrth ddylanwadu ac eirioli a gwneud penderfyniadau ar gyfer diogelwch a lles plant a phobl ifanc oedran ysgol mewn cyfarfodydd a gwrandawiaidau rhyngasiantaethol
- F.SN6** cipio profiad byw a bodolaeth bywyd plant a phobl ifanc oedran ysgol a gwerthuso sut mae hyn a ffynonellau tystiolaeth eraill yn dylanwadu ac yn llywio arfer arbenigol, penderfyniadau polisi a chynllunio gwasanaethau nyrsio ysgol nawr ac yn y dyfodol

- F.SN7** arwain a hyrwyddo gwelededd gwasanaethau nyrsio ysgol a sicrhau hygrychedd trwy ymgysylltu â phlant a phobl ifanc oedran ysgol, rhieni, gofalwyr, teuluoedd, staff ysgol, gweithwyr proffesiynol eraill a sefydliadau'r sector gwirfoddol
- F.SN8** defnyddio sgiliau a gwybodaeth arbenigol i ddylunio gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion sy'n cydnabod ac yn parchu preifatrwydd ac urddas plant a phobl ifanc
- F.SN9** dadansoddi'n feirniadol y cyfleoedd, y buddion a'r risgiau i wasanaethau nyrsio ysgol wrth gyfathrebu â phlant a phobl ifanc oedran ysgol wyneb yn wyneb a thrwy gyfryngau cymdeithasol a phlatfformau rhithwir
- F.SN10** gweithio mewn partneriaeth â gweithwyr proffesiynol a gwasanaethau perthnasol i sicrhau bod trosglwyddo cymorth ar gyfer plant a phobl ifanc oedran ysgol i wasanaethau oedolion yn lliniaru risgiau a'i fod yn gadarnhaol, yn ddi-dor ac yn effeithiol.

Maes F: Canlyniadau – Nyrs Iechyd Galwedigaethol

Ar adeg cofrestru, bydd y nyrs iechyd galwedigaethol SCPHN yn gallu:

- F.OHN1** triongli a gwerthuso'r sefydliad a data proffilio'r gweithlu i sicrhau adnoddau ar gyfer datblygu a darparu iechyd, diogelwch a lles galwedigaethol a chyflogeion
- F.OHN2** creu systemau i ganiatáu casglu data, adfer gwybodaeth a phrotocolau lledaenu ar gyfer gwella ymarfer nyrsio iechyd galwedigaethol
- F.OHN3** datblygu a rheoli gwasanaeth nyrsio iechyd galwedigaethol sy'n ddiogel ac yn effeithiol, sy'n hyrwyddo protocolau a strategaethau arloesol sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn y gweithle
- F.OHN4** dylanwadu ar bolisi a strategaeth sefydliadol ar gyfer gweithwyr iechyd a lles sy'n croesawu ac yn adlewyrchu agendâu a strategaethau cenedlaethol a rhyngwladol ar gyfer iechyd y cyhoedd
- F.OHN5** cymhwyso craffter busnes yn feirniadol i ddatblygu, hyrwyddo ac adrodd ar fentrau iechyd a lles galwedigaethol sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n ystyried adnoddau economaidd ac aneconomaidd
- F.OHN6** gwerthuso, cyfosod a chyfathrebu data a gwybodaeth i feintioli a chymhwyso effaith gadarnhaol ymyriadau iechyd galwedigaethol ar dargedau a chanlyniadau gweithle a busnes.

Geirfa

Mae'r geiriau yn yr eirfa wedi'u cynnwys i egluro eu hystyr benodol yng nghyd-destun y safonau rheoleiddio hyn. Gallai'r ystyr ehangu ar, neu fod ychydig yn fwy cynnil nag, ystyr y geiriadur ar gyfer rhai o'r geiriau hyn.

Agored i niwed: pobl a allai fod yn agored i niwed ar adeg benodol ac mewn sefyllfaoedd penodol (ond nid mewn sefyllfaoedd eraill), oherwydd eu nodwedd(ion) personol, eu sefyllfa(oedd) neu esgeulustod, ac sydd felly mewn mwy o berygl o niwed posibl neu wirioneddol. Gallai'r math o niwed fod yn emosiynol, yn gorfforol, yn rhywiol, yn seicolegol, yn faterol neu'n ariannol

Asedau cymunedol: adnoddau y gellir eu defnyddio i gyfrannu at ddatblygu a gwella iechyd a lles lleol. Gall gynnwys pobl a'u gwybodaeth, sgiliau, rhwydweithiau a pherthnasoedd, strwythurau corfforol, gwasanaethau lleol, busnesau, elusennau a chronfeydd

Asesiad cyfannol: casglu, dadansoddi a didoli ffynonellau lluosog sylwadau a gwybodaeth am berson neu bobl er mwyn llywio ymyriadau i wella iechyd. Mae'r ffocws ar y person cyfan, nid dim ond salwch posibl neu salwch gwirioneddol

Bioseicogymdeithasol: model sy'n cymryd bod rhaid ystyried ffactorau biolegol, seicolegol a chymdeithasol er mwyn deall clefyd, salwch ac iechyd

Bod heb waith: heb unrhyw waith neu gyflogaeth â thâl, gellid ei ymestyn i bobl na allant weithio neu gael eu cyflogi o ganlyniad i anabledd, cyfrifoldebau gofalwr, myfyrwyr a pensiynwyr

Canolbwyntio ar yr unigolyn: dull gweithredu lle mae'r unigolyn yn ganolog i'r prosesau gwneud penderfyniadau a chynllun ei anghenion iechyd a gofal, ei gynllun gofal a thriniaeth nyrsio iechyd y cyhoedd. Yng nghydestun iechyd y cyhoedd gall hyn hefyd fod yn berthnasol i wasanaethau iechyd y cyhoedd

Cydgynhyrchu: dull partneriaeth sy'n dod â phobl ynghyd i ddod o hyd i atebion a rennir ac sy'n cynnwys partneru â phobl o ddechrau i ddiwedd unrhyw fenter neu newid sy'n effeithio arnynt

Cydgynllunio: partneriaeth o bobl gynrychiadol neu grwpiau o bobl sy'n dod at ei gilydd i gynllunio llwybrau gofal, datblygu llwybrau newydd ac adolygu modelau gwasanaethau presennol

Cymhwysedd diwylliannol: gwybodaeth, sgiliau ac agweddau sydd eu hangen i gefnogi a darparu gwasanaethau iechyd a gofal i bobl sy'n barchus, yn ymatebol a sydd yn anrhydeddu anghenio diwylliannol boblogaethau amrywiol

Dulliau sy'n seiliedig ar gryfderau: mae dull sy'n seiliedig ar gryfderau yn broses gydweithredol, sy'n golygu cydweithio i benderfynu ar ganlyniad sy'n tynnu ar gryfderau ac asedau'r unigolyn ei hun

Ffactorau amddiffynnol:

nodweddion, amodau, neu ymddygiadau unigol neu amgylcheddol, sy'n lleihau effeithiau digwyddiadau ingol mewn bywyd. Mae'r ffactorau hyn hefyd yn cynyddu gwydnwch a gallu pobl i osgoi risgiau, ac yn cefnogi lles

Ffactorau cymdeithasol-

strwythurol: yr amgylchedd cymdeithasol, yt amgylchedd ffisegol, gwasanaethau iechyd, a ffactorau strwythurol a chymdeithasol a all ddylanwadu ar iechyd

Gofal sy'n seiliedig ar dystiolaeth:

gofal a roddir sy'n adlewyrchu'r dystiolaeth ddiweddaraf yn y maes, gan sicrhau ei fod yn ystyried galluoedd, anghenion a dewisiadau personol yr unigolyn. Mae hefyd yn cynnwys bod y nyrs yn gwneud penderfyniad personol ar sail profiad, arsylwadau a galluoedd, anghenion a dewisiadau'r unigolyn pan fydd tystiolaeth yn gyfyngedig.

Gwerth a rennir: ymwybyddiaeth o ymddygiadau ac agweddau at iechyd a chydabod bod gan unigolion, teuluoedd, gweithleoedd, cymunedau a phoblogaethau rôl i'w chwarae mewn gwella iechyd i bawb

Hierarchaeth rheolaethau: dull cam wrth gam o ddileu neu leihau risgiau, graddio rheolaethau risg o'r lefel uchaf o amddiffyniad a dibynadwyedd i'r amddiffyniad isaf a lleiaf dibynadwy

Hunan-effeithiolrwydd: cred yn eich gallu eich hun i drefnu a gweithredu a allai ddylanwadu ar fabwysiadu a chynnal ymddygiad sy'n hyrwyddo iechyd

Nodau datblygu cynaliadwy:

datblygu sefydliadau, seilwaith a gwasanaethau i roi terfyn ar dlodi ac amddiffyn y amgylchedd, nodau sy'n mynd y tu hwnt i iechyd a lles fel y nodir gan y Cenhedloedd Unedig

Penderfynyddion iechyd:

mae'n cynnwys yr amgylchedd cymdeithasol ac economaidd, yr amgylchedd ffisegol a nodweddion ac ymddygiad unigol y person

Pobl: unigolion, grwpiau neu boblogaethau sy'n derbyn gwasanaethau gan nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio, pobl iach a phobl sâl, rhieni, plant, teuluoedd, gofalwyr, unigolion enwebedig, hefyd yn cynnwys addysgwyr a myfyrwyr ac eraill yn yr amgylchedd dysgu a'r tu allan iddo.

Ymarferoldeb: ystyried iechyd pobl a'u gallu i weithio

Ymyriadau seiliedig ar le: darparwyr gwasanaethau, cymunedau a phartneriaid dinesig yn cydweithio mewn lleoliad penodol i wella iechyd a gofal ar gyfer y poblogaethau y maent yn eu gwasanaethu

Pwy ydym ni

Ein gweledigaeth yw ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth diogel, effeithiol a charedig sy'n gwella iechyd a llesiant pawb. Fel rheoleiddiwr annibynnol dros 808,000* o weithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol, mae gennym rôl bwysig i'w chwarae i wireddu hyn.

Ein rôl graidd yw rheoleiddio. Yn gyntaf, rydym yn hyrwyddo addysg uchel a safonau proffesiynol ar gyfer nyrsys a bydwagedd ledled y DU, a chymdeithion nyrsio yn Lloegr. Yn ail, rydym yn cynnal y gofrestr o weithwyr proffesiynol sy'n gymwys i ymarfer. Yn drydydd, rydym yn ymchwilio i bryderon am nyrsys, bydwagedd a chymdeithion nyrsio - rhywbeth sy'n effeithio ar leiafrif bach iawn o weithwyr proffesiynol bob blwyddyn. Rydym yn credu mewn rhoi cyfle i weithwyr proffesiynol fynd i'r afael â phryderon, ond byddwn bob amser yn gweithredu pan fo angen.

nmc
Cyngor
Nyrsio a
Bydwreigiaeth

23 Portland Place,
London W1B 1PZ
+44 20 7333 9333

www.nmc.org.uk

 @nmcnews  @nmcuk

Er mwyn rheoleiddio'n dda, rydym yn **cefnogi** ein proffesiynau a'r cyhoedd. Rydym yn creu adnoddau ac arweiniad sy'n ddefnyddiol drwy gydol gyrfaedd pobl, gan eu helpu i gyflawni ein safonau ymarferol a mynd i'r afael â heriau newydd. Rydym hefyd yn cefnogi pobl sy'n ymwneud â'n hymchwiliadau, ac rydym yn cynyddu ein hamlygrwydd fel bod pobl yn teimlo eu bod wedi'u cynnwys a'u grymuso i lunio ein gwaith.

Mae rheoleiddio a chefnogi ein proffesiynau yn ein galluogi i **ddylanwadu** ar iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym yn rhannu gwybodaeth o'n gweithgareddau rheoleiddio ac yn gweithio gyda'n partneriaid i gefnogi cynllunio'r gweithlu a gwneud penderfyniadau ar draws y sector. Rydym yn defnyddio ein llais i godi llais dros amgylchedd gwaith iach a chynhwysol ar gyfer ein proffesiynau.

The nursing and midwifery regulator for England, Wales, Scotland and Northern Ireland
Registered charity in England and Wales (1091434) and in Scotland (SC038362).

*Data a gasglwyd o 30 Medi 2023